# Tasg 2
## Dowch i ddilyn ôl traed Owain Glyndŵr

1. Gosodwch √ wrth y gosodiadau cywir a x wrth y gosodiadau anghywir

| | CYWIR | ANGHYWIR |
|---|---|---|
| Mae'r tŷ lleiaf yng Nghymru yng Nghonwy | | |
| Sais sydd biau'r tir ger y rhaeadr enwog ym Metws-y- Coed | | |
| Garsiwn yw castell yr Arglwydd Grey heddiw | | |
| Cerflun o Owain Glyndŵr ar ei geffyl yw'r unig beth i'n hatgoffa ohono yng Nghorwen | | |
| Cyhoeddwyd Owain Glyndŵr yn Dywysog Cymru yng Nghorwen | | |
| Doedd gan Owain Glyndŵr ddim llawer o amynedd gyda barddoni-aeth | | |
| Cafodd Owain Glyndŵr ei gladdu yn Sycharth | | |
| Doedd y bobl leol ddim yn hapus gyda'r Arglwydd Grey | | |
| Dim ond mewn rhannau o Gymru y cafodd Owain Glyndŵr ei gyfrif fel Tywysog Cymru | | |
| Yn Harlech yr oedd brwydr olaf Owain Glyndŵr | | |

2. Trafodwch nodweddion DIWYG y pamffled gwyliau o dan y penawdau a ganlyn a ` dywedwch pa mor effeithiol ydyn nhw:

LLIW

LLUNIAU

3. Astudiwch y paragraff isod yn ofalus ac yna

i) Tanlinellwch 1 ffaith am Owain Glyndŵr
ii) Tanlinellwch 5 ansoddair
iii) Ysgrifennwch 2 ffaith sydd ddim am Owain Glyndŵr
iv) Eglurwch pam mae'r awdur yn defnyddio'r rhagenw 'ni'

Ym mis Mawrth 1401 llwyddodd byddin Glyndŵr i gipio Conwy oddi ar y Saeson. Dychrynodd hyn Henry IV yn fawr. Felly, i ffwrdd â ni o Fetws-y-Coed i Gonwy. Bydd cerdded waliau'r dref yn wefreiddiol gyda golygfeydd godidog o afon Conwy yn hamddena i lawr rhwng bryniau gwyrdd y dyffryn cyn llifo i'r môr. Gallwch deimlo gwefr Owain pan lwyddodd i achub y tir hwn. I lawr o'r waliau a dyma ni yn nhref hynafol gaerog Conwy ble mae Plas Mawr, cartref Tuduraidd Robert Wynn. Wedi gwasgu i mewn i dŷ lleiaf Cymru fe symudwn ymlaen i Harlech.

4. Yn eich grwpiau trafodwch pa nodweddion, yn eich barn chi, sy'n gwneud pamffled gwyliau yn ddeniadol. Cofiwch hefyd ystyried y teitl.

5. Wrth drafod hanes bydd berfau AMHERSONOL yn cael eu defnyddio'n aml. Nid ydynt yn dangos PWY sy'n gwneud y weithred e.e.

Dechreuodd Wil - Rydym yn gwybod mai Wil oedd yn dechrau.

Dechreuwyd y cyngerdd – Nid ydym yn gwybod pwy oedd yn dechrau'r cyngerdd.

Mae'r terfyniad 'WYD' yn y gorffennol h.y. Roedd y cyngerdd yn cael ei ddechrau. Dyma'r ffurf hir ohono.

Dewiswch unrhyw 6 berf amhersonol o'r darn o lyfr hanes. Ysgrifennwch hwy yma ac ysgrifennwch eu ffurf hir.

i)

ii)

iii)

iv)

v)

vi)

6. Wedi astudio'r Arweinlyfr Taith a'r darn o lyfr hanes nodwch unrhyw 6 nodwedd sy'n wahanol ynddynt o ran cynnwys, iaith ac arddull.

i)

ii)

iii)

iv)

v)